# **Grŵp Trawsbleidiol ar Fwyd - Maniffesto Bwyd Cymru** Dydd Mercher 13 Mawrth Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel

**Yn bresennol:**
***Aelodau'r Cynulliad***
Jenny Rathbone AC
Huw Irranca-Davies AC
John Griffiths AC
David Melding AC

***Staff Cymorth Aelodau Cynulliad***

| | |
|---|---|
| Peter Wong | Uwch-gynghorydd, Swyddfa Jenny Rathbone |
| Zoë Bateman | Swyddog Gweinyddol a Chyfathrebu, Swyddfa Jenny Rathbone |

***Rhanddeiliaid allanol***

| | |
|---|---|
| Joanne Jefford | Dietegydd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Andy Middleton | Maniffesto Bwyd Cymru |
| Judith Gregory | Cymdeithas Arlwyo Ysgolion Caerdydd a Chymdeithas Arlwyo Awdurdodau Lleol |
| David Morris | Llywodraeth Cymru (Yr Is-adran Fwyd) |
| Haydn Evans | Cymdeithas Pridd Cymru (Ffermio) |
| Matthew Harrhy | GIG Cymru (Caffael) |

Ymddiheuriadau: Pamela Mason

## 1) Cyflwyniad ar Faniffesto Bwyd Cymru gan Andy Middleton, Aelod o Gyngor Cynghorol Llywodraeth Cymru ar Arloesi

Cardiff-University-Research-RCMA-Fooc

Rhoddodd Andy ddiweddariad ar sut y dechreuodd Maniffesto Bwyd Cymru a rhai o'r prif heriau.
Materion o bwys: Argyfwng Pridd; Mae plastig yn y rhan fwyaf o fwyd; mae ysbytai yn prynu ar sail pris nid iechyd; gellid creu 1,500 o swyddi trwy dyfu salad yng Nghymru ar gyfer Cymru. Tyfir o dan y ddaear yn Llundain
Dylai pob plentyn allu coginio erbyn 14 oed.
Gweler y cyflwyniad.

Welsh Government Food Manifesto - Ar

## 2) Trafodaeth

**JR**- Byddai'n amserol iawn edrych ar wneud y newidiadau sydd eu hangen oherwydd:

- Ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach
- Cyfleoedd o dan Brexit a'n Tir, a Brexit a'n Moroedd, a ddisgwylir yn fuan
- Cyhoeddiadau diweddar am yr Economi Sylfaenol.

**DMorris** - Yr her fwyaf yw cysylltu'r gwahanol feysydd sy'n ymddrin â bwyd.

- Mae'n bwysig cynnwys bwyd yn y metrigau ar gyfer beirniadau ysgolion.
- Yn gyffredinol, nid oes gan bobl ddigon o amser, felly mae prydau parod iach yn rhan o'r ateb. Mae'n anodd dewis opsiynau iach ar hyn o bryd.
- Mae mentrau fel tyfu salad o dan y ddaear yn golygu buddsoddiad cyfalaf mawr.

**HE** - Mae'n ymwneud â chreu'r cysylltiadau o'r Fferm i'r Fforc

- Weithiau, nid oes gan ysgolion ac ysbytai geginau hyd yn oed.
- Ar gyfartaledd, mae'r amser a dreulir yn coginio pryd o fwyd yn llai nag 20 munud. Mae gan gyflenwyr fwy o ddiddordeb mewn bwyd a baratoir ymlaen llaw gan mai cyflenwi bwyd i'w goginio o'r dechrau sydd â'r gwerth isaf

**AM** - Ble mae'r dystiolaeth am gyflenwo bwyd a baratoir ymlaen llaw yn erbyn y galw? Mae busnesau bwyd am werthu mwy o fwydydd wedi'u prosesu gan fod mwy o elw i'w wneud felly.

**HID** - Un o'r problemau mwyaf yw sut i droi hyn yn bolisi trawsnewidiol.

- Mae'r het yr ydych chi'n ei gwisgo yn dylanwadu ar sut rydych chi'n edrych ar fwyd, felly mae'n anodd cael polisi sy'n ystyried pob maes gyda'i gilydd
- Yn yr Alban, maent o'r farn y dylai fod yn haws yng Nghymru oherwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Mae Nourish Scotland yn gynghrair cref o aelodau sy'n gyrru'r agenda ymlaen gyda'i gilydd. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y llywodraeth, y sector preifat a'r sector gwirfoddol - nid oes gennym ddim byd tebyg yng Nghymru
- Diffyg meddwl cydgysylltiedig.
- Roedd menter “Valleys Veg” o'r blaen, ond fe aeth honno i'r gwellt. Beth sy'n rhwystro'r cyfleoedd hyn rhag digwydd?

**JJ** - Nid yw ysgolion yn gwneud y dewisiadau iach yn hawdd

- Mae Iechyd y Cyhoedd yn cymryd rhan yn y rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol ac yn y rhaglen Sgiliau Maeth am Oes
- Mae mwy o ddewisiadau fegan/llysieuol ar wardiau mamolaeth mewn ymateb i'r galw. Mae'n rhaid i ysbytai arlwyo ar gyfer gofynion dietegol gwahanol tra eu bod yr un pryd dan bwysau i ddod â'r costau i lawr

**JB** - Dyma'r flwyddyn olaf o gyllid ar gyfer y rhaglen gyfoethogi gwyliau ysgol

- Mae pob ysgol uwchradd yng Nghaerdydd yn coginio o'r dechrau. Dim ond 2 ysgol gynradd yng Nghaerdydd sydd heb gegin ac maent yn dod â bwyd wedi'i goginio ffres i mewn.
- Mewn ysgolion uwchradd, mae llai o amser i gael bwyd. Felly, nid oes gan ddisgyblion i amser i eistedd i fwyta, ac mae arlwywyr yn darparu mwy o fwyd cyflym y gellir ei ddal yn y llaw o'r herwydd.

**MH** - Mae'n anodd gwneud yr hyn sydd ei angen ym myd caffael

- Mae'r GIG yn cydweithio mwy â darparwyr, gan ddefnyddio prynu deinamig

- Mae selsig, llaeth a thatws oll yn dod o Gymru bellach.

**JR -** Mae bwyd yn yr Ysgol Uwchradd yn broblem fawr gyda oherwydd ystafelloedd bwyta bach a diffyg amser. Mae ciniawau pecyn yn llawn o rifau E yn arwain at broblemau ymddygiad.

- Mae cyfleoedd yn y dyfodol oherwydd y £1.5 miliwn fydd ar gael yng nghronfa'r economi sylfaenol; mae angen sicrhau bod amcanion Nwyddau Cyhoeddus a Gwydnwch Economaidd yn Brexit a'n Tir yn ategu ei gilydd.

**AM** Ymatebodd i wahanol bwyntiau a wnaed. Cyfeiriwyd at archfarchnad HISB (How It Should Be) yn Brighton, lle y talwyd ei chyflenwr lleiaf £1,000 y flwyddyn.

**3) Ailgyfansoddi'r Grŵp Trawsbleidiol yn ffurfiol**

**DMelding** a gynigiodd JR fel Cadeirydd; eiliwyd gan HIW. Cynigiodd David Melding hefyd fod yn Is-gadeirydd, ac eiliwyd y cynnig yn frwd gan JR. Gan mai dau blaid yn unig a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, cydnabuwyd bod angen cynnwys 3ydd plaid i ailgyfansoddi'r grŵp yn ffurfiol.

**4) Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf**

Awgrymwyd erbyn y cyfarfod nesaf y dylai fod gennym adduned y dylai sefydliadau ymrwymo iddo. Ni ddylai'r adduned hwn fod yn rhy hawdd a dylai fod yn gofyn ymrwymiad gwirioneddol gan sefydliadau.
Cytunwyd bod cynrychiolaeth gan fusnesau mawr yn hanfodol er mwyn gyrru newid yn ei flaen. Cytunwyd i wahodd cysylltiadau busnes bwyd allweddol i'r cyfarfod nesaf gan gynnwys Archfarchnad y Co-operative a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod.

**Caiff dyddiad y cyfarfod nesaf** a gynhelir yn nhymor yr haf ei rannu â phawb unwaith y cawn wybod pwy yw'r siaradwyr gwadd.

**Casgliad**

Diolchodd JR i Andy Middleton am ei gyflwyniad ysgogol ac i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr. Diolchodd hefyd i Charlton House am noddi'r lluniaeth heddiw. Tynnodd JR sylw at y ffaith fod Cymdeithas y Pridd wedi arfarnu ardystiad efydd Bwydi i Bawb i Charlton House am ansawdd y bwyd y mae'n ei ddarparu i Aelodau'r Cynulliad a'r staff ar ystâd y cynulliad, safon y dylem anelu ati ar gyfer ein ysgolion.

Daeth y cyfarfod i ben am 13.20.

**Cyfarfod nesaf dydd Mercher 19 Mehefin 12:00-13:30**